Rhif cwmni / company number: 14227941

**Cyfarfod Bwrdd | Board meeting**
**28/01/2026 – Teams**
**14:00-17:00**

adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales

**Cofnodion a chamau gweithredu | Minutes and actions**

**Yn bresennol | In attendance:**

**Adnodd:** Gethin Davies, Cadeirydd | Chair (GD); Mair Gwynant, Cadeirydd ARAC Chair (MG); Huw Jones (HJ); Sioned Roberts (SR); Lesley Bush (LB), Nicola Wood (NW)
Emyr George, Prif Weithredwr | Chief Executive (EG); Kirsty Davies, Cyfarwyddwr Gwasanethau Corfforaethol | Director of Corporate Services (KD); Lleucu Siencyn, Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyflawni | Director of Strategy and Delivery (LlS); Branwen Edwards (BE)

**Partneriaid | Partners:** Lloyd Hopkin, Tîm Partneriaeth, Llywodraeth Cymru (LlC) | Partnership Team, Welsh Government (WG)

| **Eitem ar yr agenda** ***Agenda item*** | **Crynodeb o'r drafodaeth a'r pwyntiau gweithredu** | **Summary of discussion and action points** |
|---|---|---|
| 1.Croeso ac ymddiheuriadau<br>Welcome and apologies | Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.<br><br>Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law gan Natalie Jones. | The Chair welcomed all attendees to the meeting.<br><br>Apologies had been received by Natalie Jones. |
| 2. Datgan buddiannau<br>Declaration of interest | Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau wedi'i ddatgan cyn y cyfarfod.<br><br>Soniodd un aelod am fudd parhaus mewn perthynas â Llyfrgell Genedlaethol Cymru. | No conflict of interests had been declared in advance of the meeting.<br><br>One member noted their ongoing interest in relation to the National Library of Wales. |
| 3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf | Adolygodd y Bwrdd gofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chofnodion cyfarfod y | The Board reviewed the AGM, and the Board meeting minutes of 22 October 2025 meeting, including the closed item. |

| | | |
|---|---|---|
| Minutes of previous meeting | Bwrdd ar 22 Hydref 2025, gan gynnwys yr eitem gaeedig.<br><br>Yn amodol ar un mân ddiwygiad i gofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, fe'u derbyniwyd fel cofnod gwir a chywir o'r trafodaethau.<br><br>Yn amodol ar un mân ddiwygiad, derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd fel cofnod gwir a chywir o'r trafodaethau.<br><br>Derbyniwyd cofnodion yr eitem gaeedig fel cofnod gwir a chywir o'r trafodaethau.<br><br>**Cam gweithredu: Gwneud mân ddiwygiadau i gofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chofnodion cyfarfod y Bwrdd.**<br><br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion. | Subject to one minor amend to the AGM minutes, they were accepted as a true and accurate record of discussions.<br><br>Subject to one minor amendment, the Board meeting minutes were accepted as a true and accurate record of the meeting.<br><br>The minutes of the closed item were accepted as a true and accurate record of discussions.<br><br>**Action: Minor amendments to the AGM and Board meeting minutes.**<br><br>No matters were arising from the minutes. |
| 4. Diweddariad gan y Cadeirydd<br>Update from the Chair | Yn dilyn trafodaethau diweddar am gynllunio trefniadau olyniaeth y Bwrdd, mae'r holl aelodau bellach wedi cael llythyr yn cadarnhau statws eu penodiad i'r Bwrdd.<br><br>Bu EG a GD mewn cyfarfod blynyddol ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ym mis Rhagfyr. Trafodwyd cynnydd a chynlluniau | Following recent discussions regarding Board succession planning, all members have now received a letter confirming the status of their appointment to the Board.<br><br>EG and GD attended an annual meeting with the Cabinet Secretary for Education (CSE) in December. Adnodd's progress and plans were discussed, specifically the work on WG |

| | | |
|---|---|---|
| | Adnodd, ac yn benodol y gwaith ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Yn dilyn y cyfarfod, fe wnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn diolch iddi am ei hamser ac i rannu adroddiad blynyddol Adnodd â hi. | priorities. Following the meeting we wrote to the CSE to thank her for her time and to share Adnodd's annual report. |
| 5. Diweddariad gan Gadeirydd ARAC<br><br>Update by Chair of ARAC | Cafodd ARAC gyfarfod ar 14 Ionawr 2026.<br><br><u>Y cyfrifon blynyddol</u><br>Nododd y Pwyllgor fod y cyfrifon wedi'u cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau.<br><br><u>Y model hunanasesu</u><br>Dywedodd MG fod y gwaith ar y model hunanasesu bron â bod wedi'i gwblhau, yn dilyn trafodaethau cadarnhaol gyda'r tîm partneriaeth.<br><br><u>Y llawlyfr llywodraethu</u><br>Bydd MG a KD yn cwrdd â thîm cyllid Llywodraeth Cymru i gadarnhau rhai materion sy'n ymwneud â chyfrifyddu. Ar ôl cadarnhau'r rheini, bydd y llawlyfr llywodraethu'n cael ei gwblhau.<br><br><u>Rheoli risgiau</u><br>Dywedodd MG fod y Pwyllgor wedi adolygu'r gofrestr risgiau yn fanwl yng nghyfarfod mis Ionawr. | ARAC met on 14 January 2026.<br><br><u>Annual accounts</u><br>The Committee noted that the accounts had been filed with Companies House.<br><br><u>Self-assessment model (SAM)</u><br>MG noted that the SAM work is near completion, following positive discussions with the partnership team.<br><br><u>Governance handbook</u><br>MG and KD will meet with the WG finance team to confirm some accounting matters. Once confirmed the handbook will be finalised.<br><br><u>Risk management</u><br>MG noted that the Committee reviewed the risk register in detail at the January meeting.<br><br>MG noted that the Committee was assured by the justifications listed in the register for direct awards. |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd MG fod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd drwy'r golofn yn y gofrestr sy'n rhoi cyfiawnhad ar gyfer dyfarniadau uniongyrchol.<br><br>Cafodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch yr amserlen ar gyfer gwaith comisiynu a'r prosesau mewnol newydd sydd wedi'u cyflwyno i sicrhau gwaith monitro agos, yn enwedig ar gyfer prosiectau risg uchel.<br><br><u>Cyllid</u><br>Cyfrannodd ARAC at y polisi Treuliau a'r polisi Cyllid. | The Committee was assured on the timetable for commissioning work and the new internal processes that have been implemented to ensure close monitoring, in particular for high-risk projects.<br><br><u>Finance</u><br>ARAC provided input into the Expenses policy and the Finance policy. |
| 6. Diweddariad y Prif Weithredwr<br><br>Chief Executive Update | <u>Dechrau Da</u><br>Dywedodd EG fod Llywodraeth Cymru ac Adnodd wedi bod yn destun stori newyddion ddiweddar gan y BBC ac S4C am ddyfodol y rhaglen Dechrau Da sydd, ar hyn o bryd, yn cael ei ariannu gan Adnodd tan fis Ebrill 2026. Gweithiodd Llywodraeth Cymru yn gyflym ac yn adeiladol gydag Adnodd i lunio ymateb i ymholiadau'r cyfryngau ac i roi eglurder ynghylch disgwyliadau'r llywodraeth ynghylch parhad y rhaglen tan y bydd y trefniadau ar gyfer y dyfodol yn cael eu cadarnhau a'u comisiynu. | <u>BookStart</u><br>EG noted that WG and Adnodd were recently the subject of a news story run by the BBC and S4C about the future of the BookStart programme which, currently, is funded by Adnodd until April 2026. WG worked quickly and constructively with Adnodd to formulate a response to media enquiries, and to provide clarity on the government's policy expectations for the programme to continue until future arrangements are confirmed and commissioned.<br><br>Discussions with BookTrust continue to ensure continued provision over the next year can be agreed. Adnodd is also working with the partnership team to ensure |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae trafodaethau'n dal i gael eu cynnal gyda Dechrau Da i sicrhau bod modd parhau â'r ddarpariaeth dros y flwyddyn nesaf. Mae Adnodd hefyd yn gweithio gyda'r tîm partneriaeth i sicrhau bod goblygiadau'r trafodaethau hyn yn cael eu hystyried wrth i ni gytuno ar ein llythyr ariannu ar gyfer y flwyddyn nesaf.<br><br><u>Diweddariad am dreth ar werth</u><br>Cafwyd canllawiau gan Lywodraeth Cymru am sut y gall Adnodd ddatblygu cais i gael ei eithrio'n rhannol rhag gorfod talu treth ar werth (TAW). Bydd y goblygiadau i Adnodd yn cael eu hadolygu wrth i'r cais ddatblygu, a bydd ARAC yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.<br><br><u>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru</u><br>Dywedodd EG fod drafftiau cynnar o'r llythyr cylch gwaith a'r llythyr ariannu wedi dod i law, ac mae'r tîm gweithredol yn gweithio gyda'r tîm partneriaeth i gwblhau'r manylion. Mae trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal yn nhimau polisi Llywodraeth Cymru.<br><br>Disgwylir i'r llythyrau gael eu cwblhau a'u cymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ym mis Chwefror. Bydd pecyn | that the implications of these discussions are considered as we agree our funding letter for next year.<br><br><u>VAT update</u><br>Guidance had been received from WG on how Adnodd can develop an application to seek partial exemption from VAT. The implications to Adnodd will be reviewed as the application develops, and ARAC will be updated on progress.<br><br><u>Working with WG</u><br>EG noted that early drafts of the remit and funding letters had been received, and the executive team is working with the partnership team to finalise the details. Discussions are also ongoing within WG policy teams.<br><br>The letters are due to be finalised and approved by the CSE in February. A comprehensive pack of strategic plans and funding will be presented to ARAC and the Board in April.<br><br><u>Educational Resources Strategic Board (ERSB)</u><br>A constructive and positive meeting of the ERSB was chaired by the WG's Director of Education in December.<br><br>The Chief Executive of Dysgu will attend the next meeting of the ERSB.<br><br><u>Engagement, collaboration and promotion</u> |

| | | |
|---|---|---|
| | cynhwysfawr o gynlluniau strategol ac ariannol yn cael ei gyflwyno i ARAC a'r Bwrdd ym mis Ebrill.<br><br><u>Y Bwrdd Strategol Adnoddau Addysg (Y Bwrdd Strategol)</u><br>Cadeiriwyd cyfarfod adeiladol a chadarnhaol o'r Bwrdd Strategol gan Gyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr.<br><br>Bydd Prif Weithredwr Dysgu yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Strategol.<br><br><u>Ymgysylltu, cydweithio a hyrwyddo</u><br>Cyhoeddwyd ail adroddiad blynyddol Adnodd ar-lein ym mis Rhagfyr.<br><br>Mae timau gweithredol Adnodd a Dysgu yn cwrdd yn rheolaidd i sefydlu perthynas agos ac i hybu cydweithio.<br>Mae'r ddau sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar eu llythyrau cylch gwaith a'u llythyrau ariannu, er mwyn sicrhau bod y rheini'n cyd-fynd â'i gilydd.<br><br>Ym mis Chwefror, bydd trafodaeth yn cael ei chynnal gyda chyhoeddwyr a gweisg yng Nghymru i rannu cynlluniau a blaenoriaethau | Adnodd's second annual report was published online in December.<br><br>The executive teams of Adnodd and Dysgu are meeting on a regular basis to establish a close and collaborative relationship. Both organisations are working together in agreeing and finalising their remit and funding letters, to secure alignment.<br><br>In February, a discussion will be held with Welsh publishers and presses to share Adnodd's plans and priorities for the year ahead and to discuss collaborative working to enable effective pre-planning. |

| | | |
|---|---|---|
| | Adnodd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac i drafod cydweithio er mwyn gallu cynllunio ymlaen llaw yn effeithiol. | |
| 7. Diweddariad y Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyflawni: Comisiynu a Strategaeth<br><br>Director of Strategy and Delivery Update: Commissioning and Strategy | <u>Dulliau comisiynu</u><br>Dywedodd LIS fod y tîm wedi gwerthuso effeithiolrwydd pob rownd gomisiynu ac wedi gwella'r systemau ar gyfer y rowndiau nesaf.<br><br>Roedd rownd gomisiynu'r hydref wedi rhoi cyfle tryloyw i'r holl gyflenwyr wneud cais drwy ddulliau hysbysebu agored, a hynny gyda'n partner caffael, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.<br><br>Mae'r manylebau ar gyfer rownd nesaf y Gwahoddiad i Dendro (ITT) wedi'u cyd-greu â thimau polisi Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr yn y maes. Bydd yr adnoddau hyn yn hybu uchelgeisiau strategol Adnodd yn ei feysydd ffocws.<br><br>O fis Ebrill 2026, bydd Adnodd yn defnyddio fframwaith agored i sicrhau bod ein prosesau comisiynu yn dryloyw ac yn gystadleuol, yn unol â rheoliadau caffael. | <u>Commissioning methods</u><br>LIS noted that the team has evaluated the effectiveness of each commissioning round and actively improved the systems for the next rounds.<br><br>The autumn commissioning round offered all suppliers a transparent opportunity to apply through open advertising methods with our procurement partner, Caerphilly County Borough Council (CCBC).<br><br>The specifications for the next round of Invitation to Tender (ITT) have been co-created with WG policy teams and experts in the field. These resources will directly support the strategic ambitions of Adnodd's focus areas.<br><br>From April 2026, Adnodd will use an open framework to ensure that our commissioning processes are transparent and competitive in-line with procurement regulations.<br><br>The next funding window will open in February. This commissioning round will be dedicated to projects supporting the teaching and learning of Welsh History, Anti-racism, and Human Rights. |

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd y ffenestr ariannu nesaf yn agor ym mis Chwefror. Bydd y rownd gomisiynu hon yn canolbwyntio ar brosiectau sy'n cefnogi addysgu a dysgu Hanes Cymru, Gwrth-hiliaeth a Hawliau Dynol.<br><br>Dywedodd LIS fod dwy sesiwn ar-lein wedi'u trefnu i ymwneud â'r farchnad ac i rannu rhagor o wybodaeth.<br><br>Fframwaith cyflenwyr<br>Mae fframwaith agored wrthi'n cael ei greu ar gyfer cyflenwyr, crewyr cynnwys creadigol, prosiectau ymchwil a gwerthuso, ac ymgynghorwyr addysgol. Nod hyn yw symleiddio ein proses gaffael a lleihau'r amser a'r ymdrech weinyddol sy'n gysylltiedig â chynnal proses dendro lawn ar gyfer pob comisiwn.<br><br>Bydd y fframwaith yn creu proses gaffael effeithlon, deg a thryloyw, a honno'n cydymffurfio â rheolau caffael.<br><br>**Cam gweithredu: Cyflwyno diweddariad i'r Bwrdd ym mis Ebrill am y fframwaith cyflenwyr.**<br><br>Fframwaith Sicrhau Ansawdd | LIS noted that two online sessions had been arranged to engage with the market and share further information.<br><br>Supplier framework<br>An open framework of suppliers, creative content creators, research and evaluation projects, and educational consultants is currently being established, to streamline our procurement process, and reduce the time and administrative effort associated with a full tendering exercise for each commission.<br><br>The framework will facilitate an efficient, fair and transparent procurement process, which complies with procurement rules.<br><br>**Action: Present a supplier framework update to the Board in April.**<br><br>Quality Assurance Framework<br>Adnodd's Quality Assurance Framework will be published on 1 April 2026 to support open opportunities to apply for commissions in line with the needs of our 26/27 funding letter.<br><br>Literacy research<br>Through open competition, Miller Research has been appointed to undertake the research project to support the future commissioning of literacy resources. |

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd Fframwaith Sicrhau Ansawdd Adnodd yn cael ei gyhoeddi ar 1 Ebrill 2026 i hybu cyfleoedd agored i wneud cais am gomisiynau, a hynny yn unol ag anghenion ein llythyr ariannu ar gyfer 26/27.<br><br><u>Ymchwil ym maes llythrennedd</u><br>Drwy gystadleuaeth agored, mae Miller Research wedi'i benodi i gyflawni'r prosiect ymchwil a fydd yn helpu gyda'r gwaith o gomisiynu adnoddau llythrennedd yn y dyfodol.<br><br>Mewn ymateb i ymholiad aelod ynglŷn â Ffrindiau Adnodd, esboniodd LIS y bydd y fframwaith cyflenwyr yn cynnwys lot ar gyfer ymgynghorwyr (yn y meysydd addysg, polisi a diwylliant), gan olygu y bydd modd "caffael" Ffrindiau Adnodd drwy'r dull hwn. Mae trafodaethau wrthi'n cael eu cynnal i sefydlu panel o arbenigwyr sydd â phrofiadau bywyd i weithio gydag Adnodd. | In response to a member's query regarding Adnodd Friends, LIS explained that the supplier framework will include a lot for (education, policy, culture) consultants, to "procure" Adnodd Friends by using this method. Discussions are ongoing to establish a panel of experts with lived experience to work with Adnodd. |
| 8. Diweddariad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol \| Director of Corporate Services Update | **Adnoddau dynol**<br><br><u>Dysgu proffesiynol</u><br>Ym mis Medi, lansiodd Adnodd blatfform e-ddysgu iHasco, sy'n galluogi staff ac aelodau'r | **Human resources**<br><br><u>Professional learning</u><br>In September, Adnodd launched the iHasco e-learning platform, allowing staff and Board members to complete compliance-based modules. |

| | | |
|---|---|---|
| | Bwrdd i gwblhau modiwlau sy'n seiliedig ar gydymffurfiaeth.<br><br>Cynigiwyd sesiynau hyfforddi ar-lein ym meysydd rheoli risgiau, seiberddiogelwch ac atal aflonyddu, a bu nifer o aelodau'r Bwrdd yn eu dilyn yn nhymor yr Hydref.<br><br>Y strwythur recriwtio a staffio<br>Yn dilyn y cylch recriwtio mewnol ar gyfer swydd y Rheolwr Comisiynu ac Ansawdd, ystyriodd y tîm gweithredol strwythur a chyfrifoldebau'r Tîm Comisiynu. Cafodd dau ddisgrifiad swydd newydd eu creu ar gyfer swyddi Uwch Swyddog a Swyddog.<br><br>Penodwyd Uwch Swyddog ddechrau mis Rhagfyr a chynhaliwyd y cyfweliadau ar gyfer swydd y Swyddog ar 15 Ionawr 2026.<br><br>Mae dyddiad dechrau yn cael ei drafod gyda'r ymgeisydd llwyddiannus.<br><br>**Fforwm y Staff** | Risk management, cybersecurity and prevention of sexual harassment online training sessions were offered and attended by a number of Board members in the Autumn term.<br><br>Recruitment and staffing structure<br>Following the internal recruitment cycle for the Commissioning and Quality Manager role, the executive team considered the structure and responsibilities of the Commissioning Team. Two new job descriptions were created for a Senior Officer and Officer roles.<br><br>A Senior Officer was appointed in early December and the interviews for the Officer role took place on 15 January 2026.<br><br>A start date is being discussed with the successful candidate.<br><br>**Staff forum**<br><br>KD provided an overview of the Staff Forum section of the paper, and the forum's discussions at its meeting on 12 November 2025.<br><br>KD noted that Adnodd had been trialling a well-being hour which has been well received by staff and is raising morale. KD will conduct a bench marking exercise regarding terms and conditions before presenting to ARAC and Board in April. |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddodd KD grynodeb o'r adran yn y papur am Fforwm y Staff a thrafodaethau'r fforwm yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2025.<br><br>Dywedodd KD fod Adnodd wedi bod yn treialu awr les sydd wedi cael croeso da gan staff ac sy'n hwb i'w hysbryd. Bydd KD yn gwneud gwaith meincnodi yn gysylltiedig â thelerau ac amodau cyn ei gyflwyno i ARAC a'r Bwrdd ym mis Ebrill.<br><br>**Cam gweithredu: Adolygu telerau ac amodau cyflogaeth cyfredol gydag ARAC a'r Bwrdd ym mis Ebrill 2026.**<br><br>**Polisïau**<br><br>Yn ystod cyfarfod ARAC ar 14 Ionawr, adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y polisi Recriwtio diwygiedig.<br><br><u>Y polisi Treuliau</u><br>Esboniodd KD fod fforwm y staff wedi adolygu'r polisi ym mis Tachwedd ar ôl agor cyfrif busnes Premier Inn ar gyfer Adnodd. | **Action: Review of current employment terms and conditions with ARAC and Board in April 2026.**<br><br>**Policies**<br><br>During the ARAC meeting on 14 January, the Committee reviewed and approved the revised Recruitment policy.<br><br><u>Expenses policy</u><br>KD explained that the policy was reviewed by the staff forum in November following the introduction of a Premier Inn business account for Adnodd.<br><br>The policy was presented to ARAC in January, and the Committee recommended that the policy is revised:<br>• To allow staff to book their own accommodation for ad-hoc requirements and reclaim the cost up to the limit<br>• 'Whole team' events must be arranged centrally by the corporate team<br>• To clearly state that staff are not able to claim the cost of any additional travel arrangements incurred from choosing their own accommodation<br>• To allow staff to combine the subsistence limits where an employee can claim for all three meals due to business needs |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynwyd y polisi i ARAC ym mis Ionawr, ac argymhellodd y Pwyllgor y dylid diwygio'r polisi fel a ganlyn:<br>• I alluogi staff i archebu eu llety eu hunain ar gyfer sefyllfaoedd ad-hoc ac adennill y gost hyd at yr uchafswm a ganiateir<br>• I egluro bod yn rhaid i ddigwyddiadau ar gyfer y 'tîm cyfan' gael eu trefnu'n ganolog gan y tîm corfforaethol<br>• I ddatgan yn glir nad yw staff yn gallu hawlio yn ôl unrhyw gostau teithio ychwanegol sy'n deillio o ddewis eu llety eu hunain<br>• I alluogi staff i gyfuno'r uchafsymiau ar gyfer cynhaliaeth pan fydd gweithwyr yn gallu hawlio am dri phryd bwyd oherwydd anghenion busnes<br><br>***Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y polisi Treuliau diwygiedig.***<br><br><u>Polisi gweithio ystwyth</u><br>Dywedodd KD fod yr adran 'gweithio o dramor' wedi'i diwygio i gryfhau sefyllfa Adnodd yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref. | ***Decision: The Board approved the amended Expenses policy.***<br><br><u>Agile working policy</u><br>KD noted that the 'working from abroad' section had been revised to strengthen Adnodd's position following discussions at the October Board meeting.<br><br>***Decision: The Board approved the amendments to the Agile working policy***<br><br>**Finance**<br><br><u>Additional in-year funding</u><br>On 5 November 2025, Adnodd signed a grant variation letter confirming additional funding to support the Wave 2 GCSE subjects. The total amount awarded was £545,405, with £444,803 allocated to FY25/26 financial year, and £100,602 to FY26/27.<br><br>Additional funding of approximately £9,000 to support the 2025/26 pay award gap and the increased NI contributions has been verbally confirmed by the partnership team and is expected in January 2026.<br><br>The total additional in-year funding of £453,803 was drawn down in January 2026. |

| | | |
|---|---|---|
| | ***Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y diwygiadau i'r polisi gweithio ystwyth***<br><br>**Cyllid**<br><br><u>Cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn</u><br>Ar 5 Tachwedd 2025, llofnododd Adnodd lythyr amrywiad grant yn cadarnhau cyllid ychwanegol i gefnogi pynciau TGAU Ton 2. Cyfanswm y swm a ddyfarnwyd oedd £545,405, gyda £444,803 wedi'i ddyrannu i flwyddyn ariannol 25/26, a £100,602 i flwyddyn ariannol 26/27.<br><br>Mae cyllid ychwanegol gwerth tua £9,000 tuag at y bwlch mewn cyflogau yn 2025/26 a'r cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol wedi'i gadarnhau ar lafar gan y tîm partneriaeth, ac mae disgwyl iddo ddod i law ym mis Ionawr 2026.<br><br>Ym mis Ionawr 2026, tynnwyd i lawr gyfanswm y cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn o £453,803.<br><br><u>Gwariant y gyllideb</u><br>Mae'r tabl yn y papurau yn dangos bod cyfanswm y gwariant am y cyfnod £911,263 yn fwy na'r cyllid grant a dynnwyd i lawr. Ceir gorwariant o £974,826 yn y gyllideb gomisiynu ac mae hynny gan fod | <br><u>Budget expenditure</u><br>The table provided in the papers shows that the total expenditure for the period exceeds the grant funding drawn down by £911,263. An overspend of £974,826 within the commissioning budget is due to the original budget forecast showing the full value of each contract in quarter 4 whilst milestones were being agreed with suppliers. Milestones have now been agreed for several projects, and some have completed within Quarter 3 leading to un-forecasted spend within the period. This will balance out by the end of the financial year.<br><br>Approximately £15,000 of the operational underspend relates to services completed but for which invoices have not yet been received. The remaining underspend of approximately £43,000 within the operational budget relates to efficiencies made. £20,000 of this underspend has been earmarked to cancel out the deficit within the accounts relating to the end of the FY23/24. The remaining underspend has been distributed to other projects.<br><br><u>Forecast-Quarter 4</u><br>The most recent forecast shows an underspend of £25,633 at year end, which is within the allowable underspend of 2% of Adnodd's total income. |

| | | |
|---|---|---|
| | rhagolygon gwreiddiol y gyllideb yn dangos gwerth llawn pob contract yn Chwarter 4, a hynny yn ystod y broses o gytuno ar gerrig milltir gyda chyflenwyr. Cytunwyd bellach ar y cerrig milltir ar gyfer nifer o brosiectau, ac mae rhai ohonyn nhw wedi'u cwblhau yn Chwarter 3. Mae hynny wedi arwain at wariant nad oedd yn rhan o'r rhagolygon yn y cyfnod dan sylw. Bydd hyn yn cydbwyso erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.<br><br>Mae tua £15,000 o'r tanwariant gweithredol yn ymwneud â gwasanaethau sydd wedi'u cwblhau ond lle nad yw anfonebau wedi dod i law ar eu cyfer eto. Mae'r tanwariant sy'n weddill yn y gyllideb weithredol, sef tua £43,000, yn ymwneud ag arbedion effeithiolrwydd a wnaed. Mae £20,000 o'r tanwariant hwn wedi'i neilltuo i ganslo'r diffyg yn y cyfrifon sy'n ymwneud â diwedd blwyddyn ariannol 23/24. Mae'r tanwariant sy'n weddill wedi'i ddyrannu i brosiectau eraill.<br><br><u>Rhagolwg - Chwarter 4</u><br>Mae'r rhagolwg diweddaraf yn dangos tanwariant o £25,633 ar ddiwedd y flwyddyn, sydd o fewn y tanwariant a ganiateir o 2% o gyfanswm incwm Adnodd. | KD noted that all commissioning projects are currently on track to complete year-end milestones on time and on budget.<br><br><u>Commissioning</u><br>A small underspend in the 24/25 commitments is due to one project completing slightly under budget.<br><br>The quality assurance budget line has been vired to fund the establishment of the supplier framework by CBCC.<br><br>The Commissioning – RFP 25/26 (Wave 2) budget was reduced to £140,000 to reflect the shorter than planned timescale for delivery. The underspend will be used to fund various projects.<br><br>The commissioning budget is forecasting a small underspend of £443 at 31 March 2026.<br><br><u>Operational</u><br>An underspend of approximately £25,000 is forecast at year end, largely due to lower costs for procurement, travel and subsistence and staff training.<br><br>The underspend will be used to offset the retained deficit and to allow some leeway should any unforeseen costs arise in quarter 4.<br><br>**Finance policy** |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd KD fod yr holl brosiectau comisiynu ar y trywydd iawn i gyrraedd eu cerrig milltir ar ddiwedd y flwyddyn yn brydlon ac o fewn y gyllideb.<br><br><u>Comisiynu</u><br>Ceir tanwariant bach yn ymrwymiadau 24/25 oherwydd fod un prosiect wedi'i gwblhau ychydig o dan y gyllideb.<br><br>Mae'r llinell yn y gyllideb ar gyfer sicrhau ansawdd wedi'i throsglwyddo i ariannu'r gwaith gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i sefydlu'r fframwaith cyflenwyr.<br><br>Gostyngwyd y gyllideb ar gyfer Comisiynu – Ceisiadau am Gynigion 25/26 (Ton 2) i £140,000 er mwyn adlewyrchu'r amserlen fyrrach na'r disgwyl ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn. Bydd y tanwariant yn cael ei ddefnyddio i ariannu prosiectau amrywiol.<br><br>Rhagwelir y bydd tanwariant bach gwerth £443 yn y gyllideb gomisiynu ar 31 Mawrth 2026.<br><br><u>Gweithredol</u> | Adnodd has reviewed and updated processes and introduced new software to streamline and improve working practices, now that most financial processes have been brought in-house<br><br>The changes have led to a review of the Finance policy, which has been recommended by ARAC for Board approval.<br><br>***Decision: The Board approved the amendments to the Policy.***<br><br>**Internal audit**<br><br>A verbal update was provided to ARAC on 14 January confirming that the testing phase was almost complete and no fundamental issues had been identified.<br><br>KD will attend a closure meeting in early February.<br><br>Adnodd officers and the internal audit team will meet to draw up the annual action plan for 2026/27. The plan will be presented to ARAC in April.<br><br>An annual assurance report will also be prepared by the internal audit team and presented to ARAC in April, providing a summary of the audit activity during 2025/26 and offer an audit opinion for inclusion in the 2025/26 financial statements. |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhagwelir tanwariant gwerth tua £25,000 ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd costau is ar gyfer caffael, teithio a chynhaliaeth, a hyfforddiant staff.<br><br>Bydd y tanwariant yn cael ei ddefnyddio i wneud iawn am y diffyg sydd wedi'i ddargadw ac i ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd pe bai unrhyw gostau annisgwyl yn codi yn chwarter 4.<br><br>**Polisi cyllid**<br><br>Mae Adnodd wedi adolygu a diweddaru prosesau ac wedi cyflwyno meddalwedd newydd i symleiddio a gwella arferion gweithio, gan fod y rhan fwyaf o'r prosesau ariannol bellach yn fewnol.<br><br>Mae'r newidiadau wedi arwain at adolygu'r polisi Cyllid, sydd wedi'i argymell gan ARAC i'w gymeradwyo gan y Bwrdd.<br><br>***Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y diwygiadau i'r Polisi.***<br><br>**Archwiliad mewnol** | **External Audit**<br>KD noted that Audit Wales will not be able to complete the field work for the 2025/26 audit until October which may impact the timings of ARAC and Board meetings during the latter part of the financial year.<br><br>**Action: Circulate new Board and ARAC meeting dates.**<br><br>**Risk management**<br><br>The risk register was reviewed and updated in December 2025 and presented to ARAC in January.<br><br>Direct awards<br>The register of direct awards has been updated to include a column outlining the justification for awarding the contract directly.<br><br>A column has also been added containing links to the transparency notices published on the Central Digital Platform (CDP) for all directly awarded contracts. 10 contracts have been directly awarded without competition since 1 April 2025.<br><br>Fraud risk register<br>Amendments have now been made to the register following a detailed review by ARAC in January. |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd diweddariad ar lafar i ARAC ar 14 Ionawr yn cadarnhau bod y cam profi bron wedi'i gwblhau ac nad oedd unrhyw broblemau sylfaenol wedi'u canfod.<br><br>Bydd KD yn mynd i gyfarfod cau ddechrau mis Chwefror.<br><br>Bydd swyddogion Adnodd a'r tîm archwilio mewnol yn cyfarfod i lunio'r cynllun gweithredu blynyddol ar gyfer 2026/27. Bydd hwnnw'n cael ei gyflwyno i ARAC ym mis Ebrill.<br><br>Bydd y tîm archwilio mewnol hefyd yn llunio adroddiad sicrwydd blynyddol ac yn ei gyflwyno i ARAC ym mis Ebrill. Bydd hwnnw'n rhoi crynodeb o'r gwaith archwilio a wnaed yn ystod 2025/26 ac yn cynnig barn gan archwilwyr i'w chynnwys yn natganiadau ariannol 2025/26.<br><br>**Archwiliad Allanol**<br>Dywedodd KD na fydd Archwilio Cymru yn gallu cwblhau'r gwaith maes ar gyfer archwiliad 2025/26 tan fis Hydref, a gallai hynny effeithio ar amseroedd cyfarfodydd ARAC a'r Bwrdd yn rhan olaf y flwyddyn ariannol. | The fraud risk register will be reviewed at least annually by ARAC in line with the Risk management policy.<br><br>Corporate risk register<br>The corporate risk register tab had been amended following discussions at January's ARAC meeting.<br><br>KD noted that she had been working with the HWB team on the IASME certification. Adnodd's responses to the questionnaire were compliant, but domain information from HWB was deemed insufficient. Additional responses from HWB are outstanding which has resulted in Adnodd not achieving IASME Level 1 certification, and therefore unlikely to achieve Level 2 certification by the end of the financial year as planned.<br><br>KD noted that she will notify WG's security team. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cam gweithredu: Cylchredeg dyddiadau newydd cyfarfodydd y Bwrdd ac ARAC.**<br><br>**Rheoli risgiau**<br><br>Cafodd y gofrestr risgiau ei hadolygu a'i diweddaru ym mis Rhagfyr 2025 a'i chyflwyno i ARAC ym mis Ionawr.<br><br><u>Dyfarniadau uniongyrchol</u><br>Mae'r gofrestr o ddyfarniadau uniongyrchol wedi'i diweddaru i gynnwys colofn yn datgan y cyfiawnhad dros ddyfarnu contractau'n uniongyrchol.<br><br>Mae colofn hefyd wedi cael ei hychwanegu at y gofrestr sy'n cynnwys dolenni i'r hysbysiadau tryloywder a gyhoeddir ar y Platfform Digidol Canolog ar gyfer yr holl gontractau a gaiff eu dyfarnu'n uniongyrchol. Mae 10 o gontractau wedi cael eu dyfarnu'n uniongyrchol heb gystadleuaeth ers 1 Ebrill 2025.<br><br><u>Y gofrestr risgiau twyll</u><br>Mae newidiadau bellach wedi'u gwneud i'r gofrestr yn dilyn adolygiad manwl gan ARAC ym mis Ionawr. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd y gofrestr risgiau twyll yn cael ei hadolygu o leiaf unwaith bob blwyddyn gan ARAC yn unol â'r polisi rheoli risg.<br><br><u>Y gofrestr risgiau corfforaethol</u><br>Roedd tab y gofrestr risgiau corfforaethol wedi'i ddiwygio ar ôl trafodaethau yng nghyfarfod ARAC ym mis Ionawr.<br><br>Dywedodd KD ei bod hi wedi bod yn gweithio gyda thîm HWB ar sicrhau ardystiad IASME. Roedd ymatebion Adnodd i'r holiadur yn cydymffurfio, ond roedd y wybodaeth am y parth gan HWB yn annigonol. Nid yw'r ymatebion ychwanegol gan HWB wedi dod i law eto, sy'n golygu nad yw Adnodd wedi cael ardystiad IASME Lefel 1, ac mae felly'n annhebygol o gael ardystiad Lefel 2 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, er mai dyna oedd y bwriad.<br><br>Dywedodd KD y bydd yn rhoi gwybod i dîm diogelwch Llywodraeth Cymru am hyn. | |
| 9. Y Cwricwlwm i Gymru \| Curriculum for Wales | Rhoddodd GD gyflwyniad byr ar y pwnc – Y Cwricwlwm i Gymru: Y cyfleoedd, yr heriau a'r risgiau. | GD gave a short presentation on the subject - Curriculum for Wales: The opportunities, challenges and risks. |

| | | |
|---|---|---|
| | <u>Y cyfleoedd</u><br>Yn ystod ei thaith i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, aeth Ysgol Dyffryn Conwy a'i chymuned ati i edrych eto ar werthoedd a gweledigaeth yr ysgol. Ffocws pwysig i addysgeg yr ysgol yw gofyn y cwestiynau: Pam, beth a sut.<br><br>Dywedodd GD fod hyfforddiant staff yn canolbwyntio ar ddatblygu gweithlu sydd â'r strategaethau angenrheidiol ar gyfer addysgu a dysgu'r Cwricwlwm i Gymru.<br><br>Mae llawer o weithgareddau yn cael eu trefnu yn yr ysgol i ennyn diddordeb dysgwyr, gan leihau costau a sicrhau cyfle cyfartal i bob dysgwr.<br><br>Mae safle'r ysgol bellach wedi'i drefnu i alluogi cynnal gweithgareddau trawsgwricwlaidd rhwng adrannau, yn seiliedig ar y Meysydd Profiad a Dysgu.<br><br>Dywedodd GD mai'r prif heriau oedd:<br>• Dylunio cwricwlwm lleol effeithiol.<br>• Cynllunio ar gyfer y cymwysterau newydd.<br>• Datblygu capasiti'r staff a'u hyfforddi.<br>• Y dulliau asesu newydd. | <u>Opportunities</u><br>During the CfW journey, Ysgol Dyffryn Conwy and its community revisited the school's values and vision. An important focus of the school's pedagogy is to ask the questions: Why, what and how.<br><br>GD noted that staff training is focused on developing a workforce that has the strategies required for teaching and learning the CfW.<br><br>Many engagement activities are arranged in school, minimising cost and ensuring equal opportunity for all learners.<br><br>The school site has now been arranged to allow cross-curricular across the departments, based on the Areas of Learning Experiences.<br><br>GD noted the main challenges as:<br>• Designing an effective local curriculum.<br>• Planning for the new qualifications.<br>• Developing staff capacity and training.<br>• New assessment methods.<br>• Consistency across schools.<br>• Measuring the impact of CfW.<br>• Preparing learners for jobs in the future. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cysondeb rhwng ysgolion.<br>• Mesur effaith y Cwricwlwm i Gymru.<br>• Paratoi dysgwyr at swyddi yn y dyfodol.<br><br>Dywedodd GD mai'r prif risgiau oedd:<br>• Costau.<br>• Peidio â rhoi digon o ffocws ar gynnwys craidd.<br>• Pwysau ar y sefyllfa staffio bresennol.<br>• Newidiadau i'r haen ganol.<br><br>Bydd y Bwrdd yn ymweld ag Ysgol Dyffryn Conwy ar gyfer ei gyfarfod ym mis Ebrill a bydd yn cwrdd â staff sy'n gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru. | GD noted the main risks as:<br>• Costs.<br>• Losing focus on core content.<br>• Pressures on the current staffing situation.<br>• Middle-tier changes.<br><br>The Board will be visiting Ysgol Dyffryn Conwy for its April meeting and will meet with staff bringing the CfW to life. |
| 10. Cynllun gweithredol<br><br>Operational plan | Mae'r cynllun drafft ar gyfer 2026-27 yn cyflwyno'r prif amcanion, y camau gweithredu a'r gyllideb sydd wedi'u dyrannu, a hynny o dan y pum blaenoriaeth strategol a geir yn ein llythyr cylch gwaith ar gyfer 2023-2026.<br><br>Mae diwrnodau gweithdy i'r holl staff wedi'u trefnu ym mis Chwefror i ddatblygu'r cynllun ymhellach. Bydd hyn yn ein galluogi i gytuno ar y prif gamau gweithredu a'r cerrig milltir ar gyfer pob amcan, canfod a rheoli'r elfennau y mae Adnodd yn | The draft plan for 2026-27 indicates key objectives, actions, and allocated budget organised across the five strategic priorities listed in our remit letter for 2023-2026.<br><br>All-staff workshop days have been arranged in February to further develop the plan. This will enable us to agree the main actions and milestones for each objective, to identify and manage dependencies and pinch points, and to agree how progress will be tracked.<br><br>EG provided an outline of the draft objectives listed for each of the five strategic priorities. |

| | | |
|---|---|---|
| | dibynnu arnyn nhw ac elfennau tyngedfennol, a chytuno ar sut i olrhain cynnydd.<br><br>Rhoddodd EG amlinelliad o'r amcanion drafft a geir ar gyfer pob un o'r pum blaenoriaeth strategol.<br><br>Cadarnhaodd EG fod drafft cynnar o'r llythyr cylch gwaith ar gyfer 26/27 wedi dod i law, a dywedodd nad oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r amcanion strategol.<br><br>Bydd cynllun gweithredol terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ebrill.<br><br>Mae'r llythyr cylch gwaith drafft yn datgan bod yn rhaid i Adnodd rannu'r cynllun gweithredol yn ffurfiol ag Ysgrifenydd y Cabinet dros Addysg i ddangos ein bod yn mynd ati i gyflawni ein cylch gwaith.<br><br>Bydd cynllun busnes mwy cryno yn cael ei lunio ar sail y cynllun gweithredol, a hwnnw'n cael ei gyhoeddi ar wefan Adnodd. | EG confirmed that an early draft of the remit letter for 26/27 had been received and noted that no changes have been made to the strategic objectives.<br><br>A final operational plan will be presented to the Board in April.<br><br>The draft remit letter notes that Adnodd must formally share the operational plan with the CSE to demonstrate that we are actively implementing our remit.<br><br>A more concise business plan will be draw up from the operational plan to publish on Adnodd's website. |
| 11. Cyllideb ddrafft 2026/27 | Datblygwyd cyllideb ddrafft 26/27 gan ystyried yr amcanion a'r meysydd ffocws a geir yn strategaeth | The draft 26/27 budget has been developed taking into consideration the objectives and focus areas set out in |

| | | |
|---|---|---|
| 2026/27 draft budget | Adnodd, amcanion polisi Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a'r ymrwymiadau cyllid o ran contractau a grantiau o flwyddyn ariannol 2025/26 ymlaen.<br><br>Mae'r negeseuon a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu y bydd cyllideb 2026/27 yn debyg iawn i gyllideb y flwyddyn ariannol gyfredol.<br><br>Mae'r cyllid ar gyfer y costau gweithredol wedi'i seilio ar flwyddyn ariannol 2024/25 ac wedi cynyddu i gydnabod cost ychwanegol dyfarniad cyflog 2024/25 a'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae'r cyllid yn ddigonol i dalu am weithgarwch arfaethedig 2026/27 ac mae'n cynrychioli 34% o gyfanswm yr arian sydd wedi'i ddyrannu.<br><br>Mae codiad cyflog o 2.2% wedi'i gyllidebu ar gyfer yr holl staff yn dilyn canllawiau gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae tanwariant o £13,426 yn y gyllideb weithredol ar hyn o bryd. Os bydd tanwariant yn dal i fodoli ar ôl i'r cytundeb cyllido terfynol gael ei gymeradwyo, gellir ei symud i'r gyllideb Gomisiynu i'w ddyrannu. | Adnodd's strategy, WG's current and future policy objectives and the contract and grant funding commitments that are ongoing from the 2025/26 financial year.<br><br>Communications from WG indicates that the budget for 2026/27 will be closely aligned to the budget for the current financial year<br><br>The operational costs funding has been baselined on FY24/25 and increased to recognise the additional cost of the 2024/25 pay award and increased National Insurance contributions. The funding is sufficient to cover the planned activity in 2026/27 and represents 34% of the total funding allocation.<br><br>A pay increase of 2.2% has been budgeted for all staff following guidance from the Public Bodies Unit of Welsh Government.<br><br>The operational budget is currently underspending by £13,426. If an underspend still exists once the final funding agreement is approved, it can be moved to the Commissioning budget for allocation. |

| | | |
|---|---|---|
| 12. Polisïau corfforaethol drafft<br>Draft corporate policies | Dywedodd KD fod y siarter Llesiant a pholisi'r Gymraeg yn dal ar ffurf drafft.<br><br>Bydd diwygiadau a awgrymir gan y Bwrdd yn cael eu gwneud cyn cyflwyno'r fersiynau terfynol i'r Bwrdd i'w cymeradwyo ym mis Ebrill.<br><br><u>Y siarter Llesiant</u><br>Drwy'r siarter Llesiant, mae Adnodd yn bwriadu dangos ymrwymiad i hybu a gwella llesiant yr holl staff ac aelodau'r Bwrdd. Bydd cynllun gweithredu ar gyfer llesiant yn cyd-fynd â'r siarter.<br><br>Mae'r siarter yn ceisio:<br>• Amlinellu rolau a chyfrifoldebau swyddogion Adnodd mewn perthynas â llesiant.<br>• Disgrifio'r camau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i hybu llesiant yn Adnodd.<br>• Dangos dull Adnodd o weithio ym maes llesiant gan ddefnyddio'r Pum Ffordd at Lesiant.<br>• Rhoi gwybodaeth am y cynllun buddion i staff. | KD noted that the Well-being charter and Welsh language policy are still in draft form.<br><br>Amendments suggested by the Board will be implemented for final versions to be presented to the Board for approval in April.<br><br><u>Well-being charter</u><br>Through the Well-being charter, Adnodd intends to demonstrate commitment to supporting and enhancing the well-being of all staff and Board members and will be supported by a wellness action plan.<br><br>The charter seeks to:<br>• Outline the roles and responsibilities of Adnodd officers in relation to well-being.<br>• Describe the measures currently in place to support Well-being within Adnodd.<br>• Set out Adnodd's approach to Well-being using the 5 ways to Well-being.<br>• Provide information on the staff benefits initiative.<br><br>Once approved by the Board the charter will be published on Adnodd's corporate webpage in line with the requirements of the SAM. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ar ôl i'r Bwrdd ei chymeradwyo, bydd y siarter yn cael ei chyhoeddi ar dudalen we gorfforaethol Adnodd yn unol â gofynion y model hunanasesu.<br><br>Dywedodd GD y dylai'r siarter adlewyrchu gwahaniaeth cliriach rhwng staff ac aelodau'r Bwrdd.<br><br>**Cam gweithredu: Sicrhau gwahaniaeth clir rhwng staff ac aelodau'r Bwrdd yn y siarter Llesiant.**<br><br>Croesawodd MG y siarter ac awgrymodd ei bod yn cael ei chryfhau drwy adlewyrchu saith nod llesiant a phum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>**Cam gweithredu: Cyfeirio at saith nod llesiant a phum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y siarter.**<br><br><u>Polisi'r Gymraeg</u><br>Mae polisi Adnodd ar gyfer y Gymraeg wedi'i greu gan ddefnyddio proses ysgrifennu triawd gyda chymorth Catrin Keller, cyfieithydd yn y Ganolfan Gwasanaethau Digidol a Chyhoeddus, a hynny er mwyn adlewyrchu cyfrifoldebau statudol, | GD noted that the charter should reflect a clearer distinction between staff and Board members.<br><br>**Action: Ensure clear distinction between staff and Board members in the Well-being charter.**<br><br>MG welcomed the charter and suggested that it is strengthened by reflecting the seven wellness goals and the five ways of working of the Well-being of Future Generations Act.<br><br>**Action: Reference the seven wellness goals and the five ways of working of the Well-being of Future Generations Act in the charter.**<br><br><u>Welsh language policy</u><br>Adnodd's Welsh language policy has been created using a trio-writing process with support from Catrin Keller, translator at the Centre for Digital and Public Services (CDPS), to reflect Adnodd's statutory responsibilities, strategic ambitions and organisational values in relation to the Welsh language and culture.<br><br>The Welsh language policy has been developed to:<br>• Embed Welsh language considerations into all internal and external activities.<br>• Support WG's vision for *Cymraeg 2050* by contributing meaningfully to the growth and visibility of the language. |

| | | |
|---|---|---|
| | uchelgeisiau strategol a gwerthoedd sefydliadol Adnodd mewn perthynas â'r Gymraeg a'i diwylliant.<br><br>Datblygwyd polisi'r Gymraeg i wneud y canlynol:<br>• Gwreiddio ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ym mhob gweithgaredd mewnol ac allanol.<br>• Cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer *Cymraeg 2050* drwy gyfrannu'n ystyrlon at dwf ac amlygrwydd yr iaith.<br>• Creu dull sefydliadol cyson sy'n mynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth ac yn modelu'r arferion dwyieithog gorau.<br><br>Croesawodd MG y polisi ac awgrymodd y dylid cyfeirio at un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gryfhau'r polisi: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.<br><br>**Cam gweithredu: Yr aelodau i anfon unrhyw sylwadau ychwanegol am y polisïau erbyn dydd Gwener 30 Ionawr.** | • Create a consistent organisational approach that goes beyond compliance and models bilingual best practice.<br><br>MG welcomed the policy and suggested referencing one of the seven goals of the Future Generations Act to strengthen the policy: A Wales of Vibrant Culture & Thriving Welsh Language.<br><br>**Action: Members to offer any additional comments regarding the policies by Friday 30 January.** |
| 13. Unrhyw fusnes arall<br>Any other business | **Dyddiadau cyfarfodydd:** | **Meeting dates:** |

Rhif cwmni / company number: 14227941

Arwyddwyd gan: ________________________________ (Cadeirydd)
Dyddiad:

| **Dyddiad cyfarfod** ***Meeting date*** | **Cyfeirnod Reference** | **Pwynt gweithredu** ***Action*** | **Erbyn** ***By*** | **Cyfrifol** ***Responsible*** | **Statws** ***Status*** |
|---|---|---|---|---|---|
| 03.04.25 | 1 | Cysylltu â'r pleidiau gwleidyddol gydag awgrym o eiriad am gylch gwaith Adnodd i'w gynnwys yn eu maniffestos. \| Approach the political parties with suggested wording of Adnodd's remit to include in their manifestos. | Ebrill \| April 2026 | EG | Wedi'i gwblhau \| Completed |
| 03.04.25 | 2 | Ymwneud â grwpiau sydd â diddordebau arbennig ar y cyfryngau cymdeithasol, e.e. grwpiau'r Cwricwlwm i Gymru a phenaethiaid. \| To engage with special interest groups on social media e.g. Curriculum for Wales and headteachers groups. | Ebrill \| April 2026 | AH | Yn mynd rhagddo \| Ongoing |
| 22.10.25 | 3 | Aelodau'r Bwrdd y mae eu contractau'n cael eu hymestyn am dair blynedd i ystyried gwirfoddoli i fod yn aelodau o ARAC. \| Board members' whose contracts are being extended by three years to consider volunteering for ARAC membership. | Mai \| May 2026 | Y Bwrdd \| Board | Yn mynd rhagddo \| Ongoing |
| 22.10.25 | 4 | Ystyried sgiliau penodol ar gyfer ARAC yn ystod y broses o recriwtio aelodau newydd i'r Bwrdd. \| Consider specific ARAC skills during the recruitment process for new Board members. | Medi \| September 2026 | Y Tîm Gweithredol/Y Tîm Partneriaeth \| Exec/Partnership Team | Yn mynd rhagddo \| Ongoing |
| 28.01.26 | 5 | Gwneud mân ddiwygiadau i gofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chofnodion cyfarfod y Bwrdd. \| Minor amendments to the AGM and Board meeting minutes. | Chwefror \| February 2026 | BE | Wedi'i gwblhau \| Completed |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 28.01.26 | 6 | Cyflwyno diweddariad i'r Bwrdd ym mis Ebrill am y fframwaith cyflenwyr. \| Present a supplier framework update to the Board in April. | Ebrill \| April 2026 | LIS | Wedi'i drefnu \| Scheduled |
| 28.01.26 | 7 | Adolygu telerau ac amodau cyflogaeth cyfredol gydag ARAC a'r Bwrdd ym mis Ebrill 2026. \| Review of current employment terms and conditions with ARAC and Board in April 2026. | Ebrill \| April 2026 | KD | Wedi'i drefnu \| Scheduled |
| 28.01.26 | 8 | Cylchredeg dyddiadau newydd cyfarfodydd y Bwrdd ac ARAC. \| Circulate new Board and ARAC meeting dates. | Ebrill \| April 2026 | BE | Wedi'i gwblhau \| Completed |
| 28.01.26 | 9 | Sicrhau gwahaniaeth clir rhwng y staff ac aelodau'r Bwrdd yn y siarter Llesiant. \| Ensure clear distinction between staff and Board members in the Well-being charter. | Ebrill \| April 2026 | KD | Wedi'i gwblhau \| Completed |
| 28.01.26 | 10 | Cyfeirio at saith nod llesiant a phum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y siarter. \| Reference the seven wellness goals and the five ways of working of the Well-being of Future Generations Act in the charter. | Ebrill \| April 2026 | KD | Wedi'i gwblhau \| Completed |
| 28.01.26 | 11 | Yr aelodau i anfon unrhyw sylwadau ychwanegol am y polisïau erbyn dydd Gwener 30 Ionawr. \| Members to offer any additional comments regarding the policies by Friday 30 January. | Ionawr \| January 2026 | Y Bwrdd \| Board | Wedi'i gwblhau \| Completed |